

Cofion a Chyfarchion

- Anfonwn ein cofion heddiw at Elwy Owen (Llanefydd) sydd bellach yn Ysbyty Broadgreen, a hefyd Glyn Jones (Nantglyn) sy'n parhau yng Nghanolfan Walton. Diolchwn am y ddau ohonynt, a chyflwynwn hwy i'r Arglwydd, gan ofyn Iddo gysgodi drostynt, a gwylio dros eu hanwyliaid yr un modd. Cyflwynwn yn ein gweddïau hefyd bawb arall sydd heb fod yn dda y dyddiau hyn. Hyderwn y byddant oll yn teimlo'n well yn fuan, ac y byddant yn profi agosrwydd yr Arglwydd yn eu hangen.
- Llongyfarchiadau i Mrs Bessie Roberts (Llanefydd) ar ddatlu ei phen-blwydd yn 90 oed yr wythnos ddiwethaf. Dymunwn iddi nerth a bendithion lu eto i'r dyfodol.

I ddod

- **Henaduriaeth Dyffryn Clwyd** yn cyfarfod yng Nghapel Rehoboth, Prestatyn nos lau, Mawrth 21ain. Pwyllgor Gwaith am 4.30 a Gwaith yr Henaduriaeth am 6.00.
- **Cwrdd Chwarter Annibynwyr Dyffryn Clwyd** yn cyfarfod nos lau, Mawrth 21ain am 7.00 yng Nghapel Pendref, Rhuthun. Yn dilyn y materion busnes, fe geir anerchiad gan y Parch. John Owen, Rhuthun – 'Thomas Jones - Arloeswr Bryniau Casia'.
- **Penwythnos 'Gwerthfawr'** ar gyfer merched ifanc blynyddoedd 7-11 yng Ngholeg y Bala, Mawrth 22ain–24ain. I archebu lle neu am fwy o fanylion, cysylltwch â'r Coleg (01678) 520565 / colegybala@ebcpcw.org.uk. Bydd Eglwys Bro Aled yn rhoi gostyngiad o £10 i'r rhai o'r Ofalaeth fydd yn mynychu.
- **Oedfa Gymun Bore'r Groglith** yn Henllan am 10.30. (Mae'n fwriad hefyd i gynnal astudiaethau mewn lleoliadau gwahanol yn ystod yr wythnos yn arwain at y Pasg. Mwy o fanylion i ddilyn.)
- **Llanw** - Cynhelir Llanw 13 yn Ninbych y Pysgod yn Sir Benfro rhwng Ebrill 1af–5ed. Mae croeso i bawb - plant, teuluoedd, myfyrwyr, parau a phobl sengl o bob oed! Mae manylion y siaradwyr a sut mae archebu lle ar y wefan www.llanw.org.
- **New Word Alive** ym mharc gwyliau Prestatyn Sands, Prestatyn LL19 7LA Ebrill 2il – 7fed ac Ebrill 7fed- 12fed. Gwyliau Beiblaidd i arfogi ac adfywio corff Crist. Tocynnau ymwelwyr dydd ar gael: www.newwordalive.org

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 10^{fed} Mawrth 2013

Darlleniad y Dydd

Lefiticus 26:9–13

(BCND tud.117 / BCN: tud.107)

www.dawncymru.org

www.eglwysibroaled.com

www.llanw.org

Croeso cynnes iawn i bawb ohonoch i addoli, a gobeithio'n wir fod y mamau yn eich plith yn cael sylw arbennig heddiw! Mae'n rhyfedd beth sy'n mynd trwy feddwl rhywun wrth brynu nwyddau newydd: gobeithio y bydd hwn yn gweithio fel y mae'r hysbyseb yn ei ddangos, tybed ydw i wedi gwneud peth call yn gwario cymaint arno?! Un peth yr ydw i'n sylwi arno fwy a mwy erbyn hyn yw'r *Terms and Conditions* allweddol sy'n dod law yn llaw â phrynu unrhyw eitem o werth. Does dim posib eu hosgoi mewn siop nac ar y wê. Clywais ryw arbenigwr ar y teledu yn honni fod cymaint o'r manylion hyn i'w cael nes y byddai'n cymryd mwy nac oes arferol person i ddarllen bob gair sydd wedi'u cynnwys yn y dogfennau. Yn ychwanegol at fod yn ennyn diflastod gan eu bod yn hirfaith, mae rhywun hefyd yn tueddu i fod amheus bod llawer o guddio pwrpasol yn digwydd yng nghanol y termau. Gallaf gredu fod llawer o amodau digon od wedi'i rhestru ynddynt gan fod cwmnïau'n gwybod yn iawn nad yw'r rhan fwyaf o'u cwsmeriaid am eu darllen.

Ond i'r Cristion, llawenydd a thestun diolch yw gwybod nad yw'n Harglwydd ni'n cuddio'i amodau nac yn ceisio'n twyllo mewn unrhyw ffordd. Yn ei Air, gwelwn Dduw yn dangos yn amlwg i'r byd sut y mae'n caru pobl wrthryfelgar wrth yrru ei Fab i fod yn Achubwr iddynt. Mae Ef hefyd trwy hanes wedi dweud yn glir beth yw Ei ddisgwyliadau ar y bobl hynny sy'n cael eu rhyddhau ganddo, a beth fyddai canlyniadau ufuddhau ac anufuddhau iddo. Yn y darlleniad heddiw o Lefiticus ceir cofnod o'r bendithion a ddô i'r bobl fyddai'n ufuddhau, ond hefyd yn dilyn ym mhennod 26 y melltithion a ddô i'r rhai fyddai'n troi cefn ar yr Arglwydd. Mae'r Beibl yn dangos hyn yn glir er mwyn i bobl Dduw wybod beth sy'n wir, ac er mwyn iddynt gael eu hatgoffa o bwysigrwydd glynu at yr Un a roddodd fywyd iddynt. Ac mae'r un peth yn parhau i fod yn wir i ninnau heddiw hefyd - mae bendithion Duw yn ddi-ben draw i'r rhai sy'n perthyn i Iesu Grist – pob bendith yn y nefolion leoedd yn ôl Effesiaid 1:4. Ydym ni'n ymwybodol o hynny tybed? Ydym ni wedi gweld yn glir beth yw canlyniadau bendigedig ymddiried yng Nghrist, a thristwch ac anobaith peidio gwneud hynny? Wrth i ni geisio Duw heddiw a chychwyn wythnos newydd yn Ei gwmmi, gweddiwn y bydd Ei Ysbryd yn ein helpu i brofi mwy o'r cyfoeth o nerth, cariad a gofal sydd ganddo ar gyfer pawb sy'n pwyso ar Iesu. A thrwy hynny gofynnwn iddo'n hannog i ymddiried yn fwy fyth ynddo, gan nad oes i ni ddaioni ond ynddo Ef (Salm 16:2).

Rhodri

Eglwys Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Robin Fferwd a Rhodri, bydd Aneurin yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.
- Llun • **CAP (Grŵp genod bl. 7-11)** yn y Granar yn Llansannan am 4.30.
• **Christian Viewpoint** – Cyfarfod i ferched yng Nghanolfan Gymunedol Bae Cinnel am 7.30 yng nghwmni Marian Whitaker o Kingdom Krafts, Llandudno – “From ship to shop and beyond”. £3 yn cynnwys bwffe.
- Mawrth • **Adnabod Dawn** yn Ffestri Capel y Groes am 7.30.
• Bydd **Chwiorydd Eglwys Bro Aled** yn ymweld â'r Eglwys Gadeiriol yn Llanelwy ac yn cyfarfod yno am 6.30. Cyflwynir hanes yr adeilad hanesyddol yn ogystal â chael ein tywys o amgylch yr adeilad, cyn cael gwasanaeth byr o dan ofal y Gwir Barchedig Nigel Williams, Deon y Gadeirlan. Yna ceir pryd o fwyd yn Morfa Rhuddlan. Os oes unrhyw un arall am ymuno, cysylltwch â Dwynwen Davies (815235) ar fyrder, os gwelwch yn dda.
- Mercher • **Cyfarfod o Gymdeithas Chwiorydd Annibynwyr Dyffryn Clwyd** yng Nghapel Lôn Swan, Dinbych am 2.00 yng nghwmni Meira Owen, Rheolwraig 'Home Start' Sir Ddinbych, sef cynllun sy'n cynnig cefnogaeth a chyfeillgarwch i deuluoedd. Ceir yno hefyd stondin Dewch a Phrynwch. Croeso i bawb.
- Iau • **Grwpiau Tai Adnabod** yn cyfarfod.
• **Cyfarfod Plant** yn Llansannan am 3.15.
• **Astudiaeth Feiblaidd** yn Llanefydd am 7.30.
- Gwener • **C.I.C.** (Clwb Ieuencid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc oed uwchradd yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.15.
- Sul nesaf • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Elen Elias, bydd Rhodri yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa Sul y Mamau i'r daith yng Nghewn Meiriadog am 10.30. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac i'r oedolion yng Nghewn Meiriadog am 2.00.
- Mawrth Cyfle am ginio a sgwrs yn Ffestri Cefn Meiriadog am 12.15. Croeso cynnes i bawb.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Neuadd Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghewn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

Cyhoeddiadau

Llansannan

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain **oedfa deulu** am 10.00 a bydd Ysgol Sul yr oedolion yn dilyn am 11.10.
- Iau Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf Bydd Cynan Llwyd yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Cynan Llwyd yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.

Saron a Pheniel

- Sul yma Cynhelir Cyfarfod Gweddi Byd-Eang y Chwiorydd yn Saron am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg. Trefniant 'Adnabod Dawn' fydd ym Mheniel gyda Celfyn Williams yn arwain yr oedfa am 10.00. Cynhelir yr Ysgol Sul yno am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Saron **am 10.00** (SYLWCH AR Y NEWID AMSER) a'r Ysgol Sul yn cydreddeg. Cynhelir yr Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma Bydd y Parch. Irfon Parry yn arwain oedfa yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00.
- Iau Bydd Cymdeithas Henllan yn dathlu Gŵyl Ddewi yn Neuadd yr Eglwys am 7.30 yng nghwmni Sioned Jones.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa fedydd yn Groes **am 2.00** (SYLWCH AR Y NEWID AMSER) pryd y bydd Llyr a Sioned Ames yn cyflwyno Mared Lois i'w bedyddio. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.
- Rhaghysbys Fe fydd yr eglwys yn Henllan yn gofyn barn yr aelodau ynglŷn ag a ddylid ethol mwy o flaenoriaid yn ystod yr oedfa ar Fawrth 24ain.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghewn Berain am 10.00. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg â gwasanaeth y bore yng Nghewn Berain a'r oedolion am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 11.15.